north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 14 Mai, 2021

**TEITL:** *Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiadau Chwarter 4 ac Blynyddol*

**AWDUR:** *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio*

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 4 (Ion-Mawrth) y Cynllun Twf, Cofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru ac Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2020-21.

1.2. Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 4, Cofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru ac Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2020-21.

2.2. Bod y Bwrdd yn ystyried ffurf yr adroddiad chwarterol ac yn adnabod gwelliannau neu lle byddai gwybodaeth bellach yn ddefnyddiol ar gyfer fersiynau'r dyfodol.

2.3. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 ac Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2020-21 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghyd a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

4.3. Mae tri atodiad i'r adroddiad hwn:
- Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 Cynllun Twf Gogledd Cymru;
- Cofrestr Risg y Portffolio - Ebrill 2021;
- Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2021-21.

Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 Cynllun Twf Gogledd Cymru

4.4. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 4 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

4.5. Gyda'r Cynllun Twf wedi'i lofnodi, mae'r ffocws y chwarter hwn wedi bod ar symud i'r cam cyflawni. Dechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 2021 gydag adolygiad gwaelodlin o'r holl brosiectau i ail-gadarnhau amserlenni ar gyfer datblygu a chyflawni achosion busnes. Unwaith y cwblhawyd yr ymarferiad hwn, roedd y ffocws ar fwrw ymlaen ag achosion busnes y prosiectau.

4.6. Yn ystod Chwarter 4, mae nifer sylweddol o weithdai wedi'u cynnal, yn unol â'r canllawiau *Better Business Case*, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes y prosiectau. Roedd y gweithdai hyn yn cynnwys nifer o randdeiliaid a buont yn gyfle i ni ac arianwyr ein prosiectau i brofi, herio ac ail-gadarnhau cefnogaeth i'r prosiectau.

4.7. Mae Adolygiadau Porth yn rhan allweddol o'n proses sicrwydd a chymeradwyo, gan ddarparu pwynt gwirio annibynnol i benderfyniadau allweddol. Yn ystod Chwarter 4, gwelsom y ddau brosiect cyntaf yn ymgymryd â'r Adolygiadau Porth. Fe wnaeth prosiect Morlais, dan arweiniad Menter Môn a'r prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter, dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam, gwblhau eu hadolygiadau a bellach maent yn gweithio ar roi sylw i'r argymhellion a wnaed cyn cyflwyno'r achosion busnes diwygiedig i'w hystyried.

4.8. Wedi llofnodi'r Llythyr Dyfarnu Grant a chyflwyno'r dogfennau angenrheidiol, fe wnaethom dderbyn y rhandaliad cyntaf o £16 miliwn gan y Llywodraethau ym mis Mawrth 2021. Bydd y cyllid yn galluogi i ni ddechrau cyflawni'r prosiectau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, pan ddisgwyliwn ystyried a gwneud penderfyniad ar ein gwedd gyntaf o achosion busnes y prosiectau.

4.9. Mae'r rhan fwyaf o raglenni a phrosiectau yn adrodd fel Ambr o ganlyniad i amserlenni datblygu achosion busnes diwygiedig sy'n arwain at oedi o gymharu â'r amserlen a amlinellir yn yr Achos Busnes Portffolio. Mae dau brosiect yn adrodd yn goch ar hyn o bryd oherwydd risgiau a allai effeithio ar gwmpas y prosiectau.

Cofrestr Risg y Portffolio - Ebrill 2021

4.10. Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio (y Grŵp Swyddogion Gweithredol) a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol.

4.11. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau, yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio diwygiedig a chamau lliniaru ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl risgiau.

4.12. Mae proffil risg cyffredinol y Cynllun Twf yn sefydlog ac nid oes unrhyw feysydd arwyddocaol newydd o bryder. Mae rhai risgiau arwyddocaol yn parhau yng nghyd-destun ambell i brosiect unigol ac mae archwaeth a gallu'r sector preifat i fuddsoddi yn y Cynllun Twf wedi Covid-19 yn parhau'n aneglur ar hyn o bryd. Nid yw'n hysbys eto beth yw effeithiau tymor hwy Covid-19 ac adfer yr economi ar y Cynllun Twf, a byddwn yn parhau i adolygu hyn.

Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2021-21

4.13. Mae'r adroddiad blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'n cynnwys y Cynllun Twf a gweithgareddau eraill a gefnogir gan y Swyddfa Rheoli Portffolio.

4.14. Roedd 2020-21 yn flwyddyn heriol, gyda Covid-19 yn newid ein bywydau a'r ffordd rydym yn gweithio. Er gwaethaf yr heriau hyn, llofnodwyd y cytundeb terfynol Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ystod seremoni rithiol ar 17 Rhagfyr, 2021.

4.15. Y Cynllun Twf Terfynol yw'r contract rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf. Fe'i sicrhawyd ar sail Achos Busnes y Portffolio a phum Achos Busnes Rhaglen a oedd yn amlinellu'r cynlluniau ar gyfer buddsoddiad o gyfanswm o £240m (£120m gan Lywodraeth y DU a £120m gan Llywodraeth Cymru).

4.16 Yn ogystal â chyflawni'r Cynllun Terfynol, cyflawnwyd nifer o gerrig milltir arwyddocaol eraill, gan gynnwys:

- Sicrhau £2.9 miliwn mewn cyllid ESF i ehangu'r Swyddfa Rheoli Portffolio;
- Recriwtio i'r strwythur staffio newydd gyda dim ond 2 swydd wag ar ôl ym mis Ebrill 2021;
- Cwblhau Adolygiad Asesiad Portffolio ac Adolygiadau Porth y prosiect cyntaf;
- Cwblhau hyfforddiant *Better Business Case* ar gyfer aelodau'r tîm;
- Gweithio'n agos gyda'r chwe awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sector preifat i gydlynu'r ymateb rhanbarthol i adfer yr economi.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o’r adroddiad hwn.

5.2. Mae'r adroddiad perfformiad chwarterol yn darparu trosolwg o broffil gwariant cyfalaf disgwyliedig cyllid y Cynllun Twf. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw achosion busnes prosiectau wedi'u cymeradwyo felly nid oes gwariant i adrodd arno. Yn y dyfodol, bydd fersiynau o'r adroddiad hwn yn cynnwys adrodd ar wariant ariannol yn dilyn cymeradwyo achos busnes y prosiectau.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o’r adroddiad hwn.

6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 |
| **Atodiad 2** | Cofrestr Risg y Portffolio - Ebrill 2021 |
| **Atodiad 3** | Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2021-21 |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

“Fel y nodi’r yn yr adroddiad mae ymrwymiad yng nghytundeb GA2 i ddarparu adroddiad chwarterol ar gyfer trefniadau craffu y Partneriaid. Mae’r hyn a argymhellir yn cyfarch y gofyn yma ac yn rhoi cyfle I’r gyfundrefn craffu gael ei ddiweddaru ac ystyried y wybodaeth wrth ffurfio rhaglenni gwaith.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

“Mae hwn yn adroddiad diweddaru, er gwybodaeth i’r aelodau, ac mae paragraff 5.1 yn nodi nad oes goblygiadau ariannol uniongyrchol yn codi. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd Cynllun Twf Gogledd Cymru yn allweddol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion y llythyr dyfarnu cyllid a ‘GA2’. Gallaf gadarnhau bod trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru am broffil y grant ac amodau cysylltiedig, ar ôl i Lywodraeth y DU gyflymu’r drefn cyllido, fel nodir o dan ‘Cyllid’ yn rhan 2 o’r adroddiad chwarterol.”